Llawlyfr

Ysgol Gymraeg Cwmbrân

2018

Ysgol Gymraeg Cwmbrân
Henllys Way
St Dials
Cwmbrân
Torfaen
NP44 4HB
Rhif ffôn 01633 483383
Rhif ffacs 01633 485178
www.ysgolgymraegcwmbran.co.uk

Pennaeth: Miss Catrin Evans
Cadeirydd y Llywodraethwyr: Mrs Jo Lewis

Croeso

Annwyl Riant / Warcheidwad

Gweledigaeth Ysgol Gymraeg Cwmbrân

'Dysgu a chyflawni gyda'n gilydd'

Croeso i Ysgol Gymraeg Cwmbrân. Wrth gyflwyno'r Llawlyfr i chi, estynnwn groeso i'ch plentyn fel disgybl yn yr ysgol. Gyda'ch cydweithrediad chi, gobeithiwn yn fawr y bydd arhosiad eich plentyn gyda ni yn un hapus ac y bydd yn datblygu'n addysgol a chymdeithasol dros y blynyddoedd. Ceir manylion yma am nifer o bethau pwysig er mwyn i'r ysgol redeg yn effeithiol ac er mwyn i'ch plentyn ymgartrefu yma'n hawdd. Mae'n bwysig eich bod yn darllen y llawlyfr yn ofalus.

Dylwn nodi'n eglur mai partneriaeth yw addysg rhyngom ni yma a chwithau'r rhieni / gwarchodwyr yn y cartref. Mae eich rhan chi'n eithriadol o bwysig os yw eich plentyn am gael y gorau o fod yn yr ysgol. Ceisiwch rhoi amser bob dydd i holi ynglŷn â'r gwaith a wnaed yn yr ysgol. Ni ellir pwysleisio digon pa mor bwysig yw eich cymorth a'ch cefnogaeth chi os yw eich plentyn yn mynd i gael yr addysg orau.

Ein gweledigaeth yn Ysgol Gymraeg Cwmbrân yw darparu ysgol lle mae plant, rhieni, athrawon, llywodraethwyr a'r gymuned yn medru gweithio gyda'i gilydd i gynnig awyrgylch groesawgar, diogel, gofalus a gweithgar i bob unigolyn.

Yn Ysgol Gymraeg Cwmbrân, mae sgiliau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu yn rhan hanfodol o'n llwyddiant wrth i ni fyw, gweithio a chwarae yn yr unfed ganrif ar hugain. Ein nod yw sicrhau bod ein disgyblion yn gymwys yn y sgiliau sydd eu hangen yn y byd digidol rydym bellach yn byw ynddo ac i sicrhau bod pob disgybl yn llwyr ymwybodol o sut i gadw'n ddiogel ar lein.

Ceisiwn ddathlu ein llwyddiannau gyda'n gilydd fel cymuned ysgol gyda phob unigolyn yn werthfawr ac yn cael parch. Ceisiwn annog yn yr holl gymuned ysgol barch at ein hiaith a'n treftadaeth ein hunain yn ogystal â pharch tuag at ieithoedd a diwylliannau eraill.

Mae lles ac addysg y plant yn ganolog i bob penderfyniad a wneir yn Ysgol Gymraeg Cwmbrân. Ceisiwn ddarparu cwricwlwm cyfoethog, cytbwys gyda digon o adnoddau i hybu chwilfrydedd naturiol bob plentyn beth bynnag bo ei liw, cenedl, diwylliant neu dras.

Ein nod yw sicrhau bydd bywydau y plant fydd yn gadael Ysgol Gymraeg Cwmbrân wedi cael eu cyfoethogi a'u ehangu drwy eu profiad gyda ni ac y bydd bob plentyn gyda'r gallu a'r awydd i ddysgu mwy ac i wynebu sialens eu bywydau yn y dyfodol.

Mae'r ysgol hon yn ysgol Gymraeg ac addysgir plant rhwng 3 ac 11 oed drwy gyfrwng y Gymraeg. Anogir plant i ddangos balchder yn eu gallu i siarad Cymraeg. Dysgir Saesneg fel pwnc craidd ychwanegol i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2.

Cofiwch bod croeso i chi gysylltu â'r ysgol i drafod unrhyw fater sy'n eich poeni ynglyn â datblygiad eich plentyn.

Catrin Evans

Pennaeth

Math o Ysgol

Ysgol Gynradd Gymraeg Penodedig 3-11 oed yw Ysgol Gymraeg Cwmbrân. Nid oes rhaid i rieni siarad Cymraeg er bod mantais amlwg i'r plentyn os ydyw'r rhieni yn barod hefyd i ddysgu'r iaith. Anogwn y plant i ddefnyddio'r iaith cyn gynted ag sy'n bosibl tu mewn a thu allan i'r dosbarth. Y Gymraeg yw'r prif gyfrwng dysgu ar draws yr ysgol, ond cyflwynir Saesneg fel pwnc ar gychwyn Cyfnod Allweddol 2 gyda'r nod o feithrin plant sy'n hyderus yn y ddwy iaith erbyn diwedd eu hamser gyda ni.

Safle Ysgol Gymraeg Cwmbrân

Saif yr ysgol ar gyrion tref Cwmbrân yng nghymuned St Dials. Ym Medi 2017 fe fydd 331 o ddisgyblion llawn amser yn yr ysgol a 50 o ddisgyblion meithrin rhan amser.

Ein hamcanion yn yr ysgol yw i:

- Ddatblygu sgiliau llefaredd, llythrennedd a rhifedd yng nghyd-destun symbylu chwilfrydedd a diddordeb y plentyn.
- Gynyddu gwybodaeth y plentyn a datblygu ei sgiliau TGCh er mwyn ei gynorthwyo i addasu i fyd sy'n newid.
- Greu ym mhob plentyn yr awydd i geisio am fwy o wybodaeth a phrofiadau yn ystod ei fywyd, a datblygu ei feddwl a'i synnwyr moesol ac ysbrydol.
- Gynorthwyo'r plentyn i fedru byw a gweithio gydag eraill a datblygu agweddau fydd yn ei alluogi i fod yn aelod cyfrifol o gymdeithas.
- Ddatblygu yn y plentyn sensitifrwydd, gwerthfawrogiad esthetig a sgiliau hamdden.

Staff

Pennaeth Dirprwy	Miss Catrin Evans Miss Catrin Passmore
Athrawon	Miss Elen Hughes Miss Elin Davies Miss Katie Thomas Mrs Nerys Griffiths-Jones Mrs Menna Haman Mrs Bethan Dalgleish Mr Nathan Bridson Mr Gethin Dobson Miss Sioned Emery Miss Hedydd Broad Mrs Rhian Sennitt Miss Heledd Williams Miss Wena Williams Miss Katie Westphal Miss Nia Sheppeard
Cynorthwy-wyr Addysgu	Miss Emma Harris Mrs Hannah Young Mr Hywel Stockman Mr Tim Tilling Mrs Elinor Stockman Miss Jessica Davies Mrs Eleanor Evans/Ms Sophie Kirkby Mrs Lowri Davies Mrs Julie Carpenter Mrs Hayley Booth Miss Jade Manning Miss Menna Eley Mr Rhys Bolton Miss Sarah Small
Ysgrifenyddes	Mrs Janet Walker
Cynorthwy-ydd y Swyddfa	Miss Holly Norman
Arolygwyr hanner-dydd	Mrs Angela King Mrs Carol Bates Ms Katie Williams
Gofalwr	Mr Peter Smith/Mr Michael Perkins

Corff Llywodraethol

Aelodau	Yn Cynrychioli
Mrs Jo Lewis (Cadeirydd)	Cyfetholedig
Mr Paul Roberts (Is-Gadeirydd)	Cyfetholedig
Mr Mark Hickinbotton	Cyfetholedig
Mr Guto Aaron	Cyfetholedig
Mr Dale Matthews	Cyfetholedig
Miss Holly Norman	Rhieni
Mrs Leanne Davies-Palmer	Rhieni
Ms Karen Bengough	Rhieni
Mrs Lisa Baulch	Rhieni
Mrs Leonie Roberts	Rhieni
Mrs Janet Walker	Staff (nad ydynt yn addysgu)
Mrs Menna Haman	Athrawon

Trefniadau Mynediad

Mae'r polisi'n cyd-redeg â pholisi derbyn Torfaen

Y Dosbarth Meithrin
Rydym yn derbyn plant i'n meithrin (rhan amser) yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed.

Y Dosbarth Derbyn
Cynnigir lle yn ein Dosbarth Derbyn i blant sy'n byw yn y dalgylch. Os oes lle, gellir derbyn plant o'r tu allan i'r dalgylch hefyd. Yr Awdurdod Addysg sy'n gyfrifol am hyn.

Mae croeso i rieni sydd â diddordeb mewn danfon eu plant i'r ysgol i gysylltu â'r pennaeth, a bydd yn hapus i drefnu amser cyfleus i chwi ymweld â'r ysgol.

Y Cwricwlwm

Ceisir sicrhau bod yr addysg a ddarperir yn hybu datblygiad moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol pob disgybl a bod natur y cwricwlwm cyflawn yn wahaniaethol, eang a chytbwys. Mae'r trefniant o fewn y dosbarthiadau yn hyblyg ond dysgir y plant fel uned dosbarth o dan ofal un athrawes/athro sefydlog.

Cyflwynir profiadau a gweithgareddau i blant yn draws-gwricwlaidd yn y ddau gyfnod drwy ddilyn themâu penodol.

Rhoddir ystyriaeth i allu bob plentyn drwy athrawon yn paratoi'n wahaniaethol er mwyn sicrhau datblygiad pob unigolyn. Er mwyn sicrhau dealltwriaeth ac ymroddiad i'r gwaith fe ddefnyddir amrywiaeth o ddulliau addysgu megis dysgu unigol, dysgu pâr neu grŵp a dysgu dosbarth cyfan.

Atgyfnerthir yr addysgu yn rheolaidd trwy sicrhau profiadau uniongyrchol megis ymweliadau â safleoedd hanesyddol, ymweliadau â'r theatr neu ymweliadau gan gwmnïau theatr addysg a siaradwyr gwadd.

Cyfnod Sylfaen
Mae cwricwlwm yr ysgol i blant 3-7 oed yn seiliedig ar y dogfennau canlynol:
Fframwaith y Cyfnod Sylfaen
Y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd
Y Fframwaith Cymhwysedd Digidol

Mae sgiliau a gwybodaeth plant yn cael eu cynllunio ar draws chwe maes dysgu sef:

- Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Datblygiad Mathemategol
- Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r byd
- Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac AmrywiaethDdiwylliannol
- Datblygiad Corfforol
- Datblygiad Creadigol

Cyfnod Allweddol 2

Mae cwricwlwm Cyfnod Allweddol 2, plant 7 – 11, oed yn seiliedig ar y dogfennau canlynol:
Cwricwlwm Cenedlaethol Diwygiedig 2008
Y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd
Y Fframwaith Cymhwysedd Digidol

Dyma bynciau sy'n cael eu cynnwys yn y Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghyfnod Allweddol 2:

Cymraeg, Saesneg, Mathemateg, TGCh, Gwyddoniaeth, Cerddoriaeth, Hanes, Daearyddiaeth, Dylunio a Thechnoleg, Celf a Dylunio, Addysg Gorfforol
Addysg Bersonol a Chymdeithasol ac Addysg Grefyddol

Ar draws y cyfnodau allweddol, sicrheir parhad a dilyniant mewn datblygu sgiliau meddwl, cyfathrebu, TGCh a rhif.

Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd

Mae Addysg Grefyddol yn rhan annatod o'r cwricwlwm. Cynhelir cyfnod o gyd-addoli yn ddyddiol. Dydy ein hysgol ddim wedi uno ag unrhyw enwad arbennig ond Cristnogaeth yw'r brif neges yn ein gwasanaethau. Mae'r plant yn dysgu am grefyddau eraill fel rhan o'u hastudiaethau. Ceisiwn gosod sylfaen foesol gadarn i annog y plant i fod yn ofalgar a goddefgar er mwyn rhannu a dysgu gyda'u gilydd. Ar adegau penodol cynhelir gwasanaethau i rieni sydd wedi eu paratoi a'u cyflwyno gan y plant.

Mae rhaid i'r ysgol dderbyn cais ysgrifenedig os ydych am gadw eich plentyn allan o'n cyd-addoli dyddiol. Goruchwylir eich plentyn gan aelod o staff mewn dosbarth os nad ydy yn cymryd rhan.

Addysg Gorfforol a Chwaraeon

Rhoddir cyfle llawn a chyfartal i bob disgybl i gymryd rhan ym mhob gweithgaredd chwaraeon yn yr ysgol. Dysgir Addysg Gorfforol ddwy waith yr wythnos a rhoddir yr un pwyslais ar gymnasteg, dawns, chwaraeon ac athletau. Disgwylir i'r plant wisgo'n addas ar gyfer y gwersi hyn – crys T, trowsus byr ac esgidiau chwaraeon ar gyfer gwersi athletau / chwaraeon ac yn droednoeth ar gyfer dawns a gymnasteg. Ni chaniateir i'r plant wisgo gemwaith yn ystod gweithgareddau addysg gorfforol. Bydd y gwersi dawns a gymnasteg yn cymryd lle yn y neuadd a'r gwersi chwaraeon ac athletau yn cymryd lle ar yr iard.

Mae pob plentyn yn yr ysgol yn derbyn gwersi nofio ym Mlwyddyn 4. Ceir timoedd pêl-rwyd, pêl-droed, rygbi, hoci a chriced ac mae'r timoedd yn cystadlu yn rheolaidd yn erbyn ysgolion eraill.

Gwaith Cartref

Pwrpas gwaith cartref yw i atgyfnerthu gwaith y dosbarth a datblygu dealltwriaeth y disgyblion ymhellach. Rhoddir gwaith cartref yn rheolaidd i'r disgyblion ar ddydd Gwener a disgwylir i'r plant ei ddychwelyd ar y dydd Mawrth canlynol. Mae pob plentyn yn mynd â llyfr darllen gartref yn rheolaidd a gwelir darllen hefyd yn rhan o waith cartref bob plentyn yn ogystal ag unrhyw waith ysgrifenedig. Rydym yn gobeithio derbyn cefnogaeth rhieni/gwarchodwyr gyda'r gwaith cartref ond deallwn hefyd nad yw hi wastad yn bosibl i gyflawni gwaith cartref mewn rhai achosion penodol ar brydiau.

Addysg Rhyw a Pherthnasedd

Yn unol â deddfwriaeth Llywodraeth Cymru, rhaid i'r ysgol ddarparu Addysg Rhyw a Pherthnasoedd ar gyfer y disgyblion. Mae hwn yn rhan o'r fframwaith ar gyfer Addysg Bersonol a Chymdeithasol yn ogystal â rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer Gwyddoniaeth. Cyflwynir y prif agweddau ar frig Cyfnod Allwedol 2.

Ym mhob agwedd o addysg rhyw, ystyrir yr unigolion wrth wneud unrhyw waith neu gynnal unrhyw drafodaeth a cheisir bod yn sensitif i'w haeddfedrwydd a'u hangenion. Nyrs yr ysgol sy'n gyfrifol am addysgu addysg rhyw.

Mae'r ysgol yn ymwybodol iawn mai cyfrifoldeb rhieni a'r ysgol ar y cyd yw addysgu addysg rhyw, ac y mae angen dealltwriaeth lawn o rôl pob un sydd ynghlwm wrth y gwaith. Mae gennych yr hawl fel rhieni i eithrio eich plentyn o'r gwersi Addysg Rhyw. Os dymunwch wneud hyn, eich cyfrifoldeb chi yw cysylltu â'r Pennaeth. Rydym yn hysbysu rhieni/gwarchodwyr os ydy addysg rhyw yn mynd i gael ei addysgu a phryd.

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

Mae dros 160 o gliniaduron ar gael i'w defnyddio yn yr ysgol a 80 I-pad ar hyn o bryd. Mae Cymhwysedd Digidol yn rhan statudol o'r cwricwlwm a bydd y Cwricwlwm TGCh hefyd yn sail i'r holl waith cynllunio ar draws yr ysgol.

Asesu

Gweithredir asesu parhaol (ffurfiol ac anffurfiol) o gynnydd unigolion a chaiff datblygiad a pherfformiad bob plentyn ei olrhain yn drylwyr.

Anfonir Adroddiadau Blynyddol at rieni ar ddiwedd y flwyddyn ysgol ynghyd ag asesiadau athrawon ar ddiwedd y Cyfnodau Allweddol (Blwyddyn 2 a 6). Yn ogystal anfonir asesiadau statudol darllen a rhifedd (Blwyddyn 2 i fyny) adref ar ddiwedd y flwyddyn. Yn ogystal, cynhelir nosweithiau rhieni ddwy-waith y flwyddyn yn nhymor yr hydref a'r gwanwyn lle caiff rhieni gyfle i drafod â'r athro dosbarth am ddatblygiad a thargedau eu plentyn. Yn nhymor y gwanwyn, cynhelir diwrnod agored sy'n gyfle i rieni/gwarchodwyr weld gwaith eu plant.

Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae gan yr ysgol bolisi o gyfle cyfartal i'r holl ddisgyblion beth bynnag eu rhyw, eu cred a'u gallu. Mae gan bob plentyn yr hawl i addysg eang, gytbwys, gydlynol, perthnasol a gwahaniaethol. Darperir polisi a rhaglen waith ar gyfer plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sy'n cyd-redeg â gweithgarwch y dosbarth a'r ysgol gyfan. Mae hyn yn wir am blant sydd ar ddatganiad, y rhai ag anhawsterau llai dwys, a hefyd y plant mwy abl a thalentog.

Mae cydlynydd ADY yn cydweithio'n agos gyda'r staff er mwyn cynorthwyo'r disgyblion. Defnyddir amrywiaeth o raglenni ymyrraeth ar draws yr ysgol a chlustnodir amser ychwanegol i gynorthwy-wyr gynnal sesiynau ymyrraeth a thracio cynnydd y disgyblion.

Mae'r ysgol yn cyd-weithio'n agos ag asiantaethau allanol e.e. y Gwasanaethau Cymhwysiad, Gwasanaeth 'Outreach' Crownbridge, Therapydd Lleferydd ac Uned Clyw'r Sir.

Caiff pob plentyn ei asesu yn gyson o fewn yr ysgol, a phan wêl yr athrawon fod plentyn yn cael trafferthion, gwneir asesiad pellach ac ymgynghorir gyda rhieni'r plentyn. Yna gosodir y plentyn ar y gofrestr ADY a chynllunir Cynllun Addysgol Unigol ar ei gyfer. Ar ôl cael eu gosod ar y gofrestr, rhoddir y plant ar gyfnodau arbennig fel y nodir isod:

GWEITHREDU GAN YR YSGOL	Pan fydd athro dosbarth neu'r Cydlynydd ADY yn canfod bod gan blentyn anghenion addysgol ychwanegol dylai'r athro baratoi ymyriadau sy'n ychwanegol at y rhai a ddarperir fel rhan o gwricwlwm gwahaniaethol o strategaethau arferol yr ysgol.
GWEITHREDU GAN YR YSGOL A MWY	Mae'n debygol mai o ganlyniad i benderfyniad gan y Cydlynydd ADY ac athrawon, mewn ymgynghoriad â'r rhieni, y gwneir cais am help gan wasanaethau allanol.
GOFYN AM ASESIAD STATUDOL	Os ydy'r ysgol yn gofyn wrth yr ALl am asesiad statudol i dderbyn cefnogaeth arbenigol neu gydnabyddiaeth o anghenion dwys.
DATGANIAD ANGHENION ADDYSGU YCHWANEGOL	Mae hon yn ddogfen statudol sy'n amlinellu'r anghenion a'r ddarpariaeth.

Cyfle Cyfartal

Credwn yn gryf yn ein hysgol bod pob plentyn, beth bynnag ei hil, ei genedl neu allu, yn haeddu cyfle cyfartal. Trwy gydol pob gweithgaredd yn yr ysgol a'r cwricwlwm, bydd gan y plentyn gyfle i gymryd rhan ac wrth wneud hynny, i ddatblygu ei wybodaeth, ei sgiliau personol a'i boddhad. Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod gweithgareddau a thasgau yn ddiddorol i fechgyn a merched.

Dylai disgyblion sydd ag anawsterau arbennig gael eu hannog i gyflawni gymaint â phosibl o'u hastudiaethau. Rhaid darparu'n hyblyg ac yn addas er mwyn eu helpu i gyflawni eu potensial llawn. Mae copi o bolisi Cyfle Cyfartal yr ysgol ar gael i'r rhieni.

Disgyblion ag anabledd

Byddwn yn ymdrechu i beidio gwahaniaethu ar sail anabledd. Byddwn yn trîn pob plentyn yn gyfartal ac yn defnyddio'r un polisi derbyn ar gyfer pawb. Byddwn yn annog disgyblion a staff i drîn pawb yn gyfartal yn unol â'n Polisi Cyfle Cyfartal.

Mae adeilad yr ysgol yn addas ar gyfer disgyblion ag anableddau corfforol gan y gellid teithio i bob rhan ohoni heb ddefnyddio grisiau. Mae tŷ bach addas gennym ac mae Cynllun Hygyrchedd gan yr ysgol yn ogystal.

Disgyblaeth

Ni all ysgol lwyddo heb ddisgyblaeth dda. Mae disgyblaeth Ysgol Gymraeg Cwmbrân yn gryf ond yn deg ac mae'n bwysig sylweddoli bod rhaid i'r ysgol a'r cartref gydweithio er mwyn datrys unrhyw broblemau sy'n codi – ni all un ennill heb y llall. Ein nod yma yw meithrin hunan ddisgyblaeth ymhob disgybl gan mai dyma'r ddisgyblaeth fydd yn aros gydag unigolion gydol eu bywydau. O dro i dro, bydd pethau'n digwydd a bydd rhaid ceryddu a disgyblu plentyn. Mewn achosion difrifol neu achos lle mae'r plentyn wedi camymddwyn mwy nag unwaith, bydd yr ysgol yn cysylltu â'r rhieni gan obeithio gael eu cefnogaeth. Lle y tybir bod unrhyw fath o fwlio yn y cwestiwn, delir â'r mater yn syth gan gyfweld â'r plant a chysylltu â'r rhieni yn syth. Mae'n rhaid i blentyn sylweddoli bod yr ysgol a'r cartref yn coleddu'r un safonau a bod gennym ddisgwyliadau uchel – sef sicrhau bod bob plentyn yn gyfrifol, yn parchu eraill ac yn aeddfed wrth ymwneud â chyd-ddisgyblion ac oedolion o fewn yr ysgol a thu allan iddi.

Iechyd a Diogelwch

Mae diogelwch y disgyblion yn holl bwysig i ni. Os bydd plentyn yn sâl neu mewn damwain, cysylltir â'r rhieni neu'r gwasanaethau brys perthnasol yn syth.

Rhaid i'r ysgol fod yn ymwybodol os yw plentyn yn dioddef o asthma neu alergedd bwyd ac mae rhaid sicrhau bod yna gyflenwad o'r meddyginiaeth angenrheidiol yn yr ysgol.

Rhaid i bob ymwelydd ymweld â'r brif fynedfa cyn cael mynediad i'r ysgol. Rhoddir bathodyn i ymwelwyr gan staff y Swyddfa.

Mae gan yr ysgol system larwm lladron a cheir ymarferion tân yn dymhorol.

Rydym yn arolygu gweithdrefnau iechyd a diogelwch yn rheolaidd.

Gwisg Ysgol

Mae gan yr ysgol wisg ysgol swyddogol a gobeithio y gallwn ddibynnu arnoch i annog y plant i'w gwisgo bob dydd. Mae gosod safonau yn un o'n blaenoriaethau fel ysgol ac rwy'n siwr y cytunwch bod ymddangosiad y disgyblion yn arwain at falchder yn yr ysgol.

Coch a llwyd yw lliwiau'r ysgol a gallwch brynu'r wisg yn 'Pretty Miss' yng Nghwmbrân.

Sylwch:

- Dylai esgidiau fod yn ddu – nid yw esgidiau ymarfer yn rhan o'r wisg ysgol.
- Sanau gwyn neu 'tights du/coch i'r merched, sanau llwyd i'r bechgyn.
- Siwmper neu gardigan coch.
- Nid yw trowsus chwaraeon yn rhan o'r wisg ysgol.
- Dylai unrhyw addurn gwallt fod yn goch neu'n wyn.
- Ni chaniateir gemwaith ag eithrio oriawr a chlustlysau bach.
- Does neb i wisgo het / cap neu fandana y tu mewn i'r adeilad heb ganiatâd y Pennaeth.

(Ceir lluniau o'r wisg ysgol ar wefan yr ysgol)

Oriau'r Ysgol

(Heb gynnwys cofrestru a gwasanaethau)

Meithrin	12.5 awr yr wythnos
Cyfnod Sylfaen	21.5 awr yr wythnos
Cyfnod Allweddol 2	23.5 awr yr wythnos

Diwrnod Ysgol

Dechreuir pob diwrnod â gwasanaeth boreol. Mae gwasanaeth i'r ysgol gyfan ar fore Llun, Mawrth a Mercher. Cynhelir gwasanaeth arbennig ar ddiwedd prynhawn Gwener lle gwobrwyir un disgybl o bob dosbarth am ymdrech ychwanegol yn ystod yr wythnos. Gwahoddir rhieni 'disgyblion yr wythnos' i'r gwasanaeth ar fore Mawrth i weld eu plant yn derbyn eu tystysgrifau. Yn ogystal â gwasanaethau, ceir sesiynau canu bob wythnos gyda disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn cwrdd ar fore Mercher a phlant y Cyfnod Sylfaen yn cwrdd ar fore Gwener.

Sesiynau'r dydd

	Bore:	**Prynhawn:**
Meithrin	09.00 – 11.30	13.00 – 15.30
Cyfnod Sylfaen	09.00 – 12.00	13.20 – 15.20
CA2	09.00 – 12.00	13.00 – 15.30

Bydd y plant yn ymgynnull ar iard yr ysgol ar ddechrau'r dydd a bydd staff ar ddyletswydd rhwng 08.50 a 9.00 pan genir y gloch. Ar ddiwrnod gwlyb, caniateir i'r plant fynd yn syth i'r neuadd ar ôl cyrraedd yr ysgol.

Gofynnwn yn garedig i chi adael y plant yng ngofal aelod o staff i fynd i mewn i'r ysgol os nad oes rheswm arbennig am beidio â gwneud hynny. Os ydych yn hwyr yn cyrraedd yr ysgol, bydd angen i chi fynd at y swyddfa er mwyn cofnodi presenoldeb y disgybl yn yr ysgol. Eto, gofynnwn yn garedig i chi adael y plentyn yng ngofal staff y swyddfa yn hytrach na thorri ar draws trefn yr ysgol drwy fynd â'r plentyn i'w ddosbarth.

Yn ystod yr awr ginio, bydd y plant o dan ofal Arolygwyr Hanner-dydd a'r cynorthwy-wyr. Mae'r ysgol wedi gosod cloeon ar y drysau allanol i gyd, ac ni all unrhyw un gael mynediad heb ganiatâd. Mae camerâu CCTV o gwmpas y tu allan i'r ysgol.

Ar ddiwedd y dydd, bydd y plant yn cael eu tywys at y mannau ymgynnull. Bydd athrawon yn gyfrifol am arwain y plant at y bysiau wrth ymyl y cylchdro. Bydd yr athrawon yn tywys dosbarthiadau'r Cyfnod Sylfaen yn eu tro at yr iard lle bydd y rhieni/gwarchodwyr yn cwrdd â'r plant am 3.20pm. Bydd disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn cael eu tywys at yr iard gan yr athrawon ac yn cael eu rhyddhau i'r rhieni/gwarchodwyr am 3.30pm. Os nad oes rhiant neu warchodwr yn casglu'r plant ar ddiwedd y dydd, bydd yr athrawon yn tywys y plant yn ôl at y swyddfa lle byddwn yn ceisio ffonio un o'r rhifau cyswllt.

Yn anffodus, does dim lle ar dir yr ysgol i rieni barcio ceir ac er mwyn diogelwch y plant, gofynnwn yn garedig i chi barcio y tu allan i dir yr ysgol a cherdded at yr iard i gasglu'ch plant. Gofynnwn yn garedig i chi fod yn ystyriol tuag at ein cymdogion wrth barcio.

Salwch ac Absenoldebau

Mae'n bwysig bod y disgyblion yn yr ysgol yn brydlon bob dydd. Os nad yw plentyn yn yr ysgol, mae hi bellach yn hanfodol yn ôl y Ddeddf Addysg eich bod yn ein hysbysu trwy alwad ffôn ben bore neu e-bost i esbonio. Lle bo'n bosib dylai unrhyw apwyntiadau meddyg neu'r deintydd fod tu allan i oriau ysgol.

Os ydych yn cymryd eich plentyn ar wyliau yn ystod y tymor ysgol, bydd yn cael ei gofnodi fel absenoldeb anawdurdodedig.

Mae'r Swyddog Lles Addysgol yn ymweld â'r ysgol yn gyson er mwyn arolygu'r cofrestri. Gwobrwyir disgyblion am bresenoldeb o 100% y tymor a thynnir sylw rhieni at bresenoldeb o 93% neu lai.

Materion Meddygol

Mae nyrs yr ysgol yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd. Ei rhif cyswllt yw 01495 768777.

Ar wahanol adegau yn ystod eu hamser yn yr ysgol, bydd plant yn cael profion clyw a llygaid. Rhoddir gwybod i rieni os oes angen triniaeth ar unigolion.

Os yw plentyn yn sâl neu wedi cael damwain, cysylltir â'r rhieni yn syth os yw'r achos yn rhy ddifrifol i'r ysgol drîn y clwyf. Os yw rhiant am i'r ysgol roi moddion i blentyn, rhaid llenwi'r daflen swyddogol sydd ar gael yn y swyddfa. Mae'n rhaid i'r daflen gael ei chwblhau a'i llofnodi cyn yr ystyrir rhoi moddion i blentyn. (Ceir copi o'r ffurflen ar wefan yr ysgol).

Cinio Ysgol

Pris cinio ysgol yw £2.30 i'r Cyfnod Sylfaen a £2.40 i Gyfnod Allweddol 2. Bob dydd, cynigir un pryd cynnes neu stondin salad i'r disgyblion. Darperir y cinio gan Torfaen Catering. Mae'r fwydlen ar gael ar ein gwefan.

Defnyddir system 'Cashless Catering' i dalu am ginio. Efallai bydd gan eich plentyn hawl i gael prydau ysgol am ddim a byddai'r ysgol yn eich annog i weithredu ar hyn. Mae ffurflenni ar gael gan yr ysgol.

Gall eich plentyn ddod â bocs bwyd i'r ysgol. Ni chaniateir poteli gwydr neu ganiau. Gofynnwn yn garedig i chi ddarparu bocs bwyd iachus a chytbwys yn unol â pholisi bwyta'n iach yr ysgol.

Byrbryd

Rydym yn awyddus i'r plant gael ffrwyth amser chwarae bob bore. Gofynnwn yn garedig, felly, i chi dalu am ffrwyth ar ddechrau'r hanner tymor. Bydd yr ysgol yn rhoi gwybod i chi faint sydd angen ei dalu bob tro. Mae yna groeso i chi ddanfon darn o ffrwyth i mewn gyda'ch plentyn.

Cyswllt â'r Rhieni

Mae cyfathrebu agored ac effeithiol rhwng yr ysgol a'r cartref yn hanfodol i ddatblygiad a lles pob plentyn. Gall rhieni gysylltu â'r ysgol ar unrhyw adeg i drafod gofidiau neu i wneud apwyntiad i siarad â'r athro dosbarth neu'r Pennaeth. Dosberthir copi o'n Cytundeb Ysgol-Cartref i bob teulu.

Cyflwynir rhaglen dymhorol i bob rhiant o'r hyn y bydd ei blentyn yn ei wneud ym mhob dosbarth yn ystod y tymor. Danfonir calendr o weithgareddau a digwyddiadau i bob cartref. Ystyriwn ddatblygiad addysgiadol y plentyn yn broses a rannir rhwng y teulu a'r ysgol. Diweddarir y wefan yn rheolaidd a defnyddir y system Schoop a Trydar i hysbysu'r rhieni/gwarchodwyr o ddigwyddiadau neu newidiadau i'r drefn arferol.

Gwybodaeth Bersonol

Rydym yn cadw tudalen wybodaeth ar bob disgybl yn yr ysgol. Mae'n bwysig iawn eich bod yn rhoi gwybodaeth lawn i ni ynglŷn â manylion personol os ydynt yn newid e.e. newid cyfeiriad neu rif ffôn. Mae'n angenrheidiol bod rhifau cyswllt gennym yn ystod y dydd rhag ofn bod rhaid cysylltu gyda chi mewn argyfwng.

Nodwch na fyddwn yn rhyddhau plentyn i berson sydd ddim wedi ei restru fel cyswllt ar ein cofnodion ysgol. Os oes newid i'r trefniadau casglu arferol, gofynnwn i chi gysylltu trwy lythyr neu alwad ffôn cyn 2:30yp.

Gweithgareddau Allgyrsiol

Cynigir amrywiaeth eang o weithgareddau e.e. chwaraeon, canu a pherfformio, coginio, garddio, gwnïo a'r Urdd i'r holl ddisgyblion yn eu tro. Mae'r gweithgareddau hyn yn cael eu cynnal oherwydd ymrwymiad ein staff.

Gofynnir i rieni sicrhau eu bod yn gwneud trefniadau i gasglu eu plant ar yr amser cywir yn dilyn gweithgaredd allgyrsiol.

Derbyn Taliadau

O bryd i'w gilydd rhaid i ni ofyn i chi gyfrannu at:

- Ymweliadau addysgiadol
- Ymweliadau gan gwmnïau theatr neu ymwelwyr
- Teithiau diwedd blwyddyn

Credwn bod ymweliadau yn cyfoethogi addysg y plant. Rydym yn ymwybodol o'r baich ariannol sydd ar rieni ac rydym yn gwneud ein gorau glas i gadw costau'n isel. Nid oes gorfodaeth ar unrhyw riant i gyfrannu tuag at y gweithgareddau hyn. Mewn achosion o brinder arian, cysylltwch â'r Pennaeth os gwelwch yn dda.

Gwersi Offerynnol

Nid oes rheidrwydd ar yr A.Ll na'r Llywodraethwyr i gynnig hyfforddiant offerynnol unigol. Mae cerdd yn un o'r pynciau sylfaenol ac fe'i haddysgir i bob plentyn. Lle mae darpariaeth ar gyfer gwersi offerynnol unigol, penderfyniad y Corff Llywodraethol yw codi tâl o £40.00 y tymor am y gwersi hyn.

Trefn Gwyno

Yn y mwyafrif o achosion, mae athro dosbarth eich plentyn yn medru ymdrin â chwynion a phryderon am fywyd ysgol neu agweddau o'r cwricwlwm yn gyflym. Dylech gysylltu â'r ysgol i drefnu apwyntiad er mwyn cwrdd ag e/hi cyn gynted â phosib. Os nad ydych chi'n fodlon â'r canlyniad, gellir yna ymdrin â llawer o gwynion yn effeithiol drwy drafodaethau gyda'r Pennaeth a fydd yn cysylltu â'r bobl angenrheidiol i ddatrys eich pryderon. Dyma'r camau rhesymol cyntaf. Bydd y Corff Llywodraethol yn disgwyl bod y camau hyn wedi eu cyflawni cyn cyflwyno'r gwyn yn ffurfiol ac yn ysgrifenedig i'r Corff Llywodraethol yn unol â Deddf Addysg 1988.

Diogelu ac Amddifyn Plant

Ar gyfer materion sy'n ymwneud ag amddiffyn plant neu diogelu, gweler y Pennaeth sef y Person Dynodedig sy'n gyfrifol am Amddiffyn Plant. Os nad yw hi ar gael, mae'r Dirprwy Bennaeth hefyd yn gallu ymdrîn â'ch pryderon.

Dyddiadau Tymor Torfaen

Blwyddyn Academaidd 2018/2019

Tymor	Tymor yn Dechrau	Hanner Tymor yn Dechrau	Hanner Tymor yn Gorffen	Tymor yn Gorffen
Hydref	Dydd Llun 03.09.18	Dydd Llun 29.10.18	Dydd Gwener 02.11.18	Dydd Gwener 21.12.18
Gwanwyn	Dydd Llun 07.01.19	Dydd Llun 25.02.19	Dydd Gwener 01.03.19	Dydd Gwener 12.04.19
Haf	Dydd Llun 29.04.19	Dydd Llun 27.05.19	Dydd Gwener 31.05.19	Dydd Llun 22.07.19

Trefnir pump diwrnod hyfforddiant mewn swydd ar gyfer y staff ac mi fydd yr ysgol ar gau. Rhoddir digon o rybudd o flaen llaw i rieni/gwarchodwyr

Presenoldeb

% presenoldeb Medi 2016 – Gorffennaf 2017

Presennol	Absennol â chaniatâd	Absennol heb ganiatâd
95.45	3.85	0.71

Ein targed ar gyfer 2017/2018 yw 95.7%

Canlyniadau Diwedd Cyfnod

Diwedd Cyfnod Allweddol 2

	Ysgol					ALl	Cymru
Teitl	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17	2016/17	2016/17
DPC	97.6	89.5	97.7	95.1	91.7	89.5	89.5
Saesneg	97.6	89.5	97.7	96.7	94.4	92.0	91.1
Cymraeg fel Iaith Gyntaf	97.6	89.5	97.7	96.7	91.7	88.9	91.6
Mathemateg	100.0	92.1	97.7	98.4	91.7	91.5	91.6
Gwyddoniaeth	100.0	92.1	97.7	98.4	94.4	93.8	92.2

Diwedd Cyfnod Sylfaen

	Ysgol					ALl	Cymru
Teitl	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17	2016/17	2016/17
Dangosydd y Cyfnod Sylfaen	88.1	83.0	92.5	89.8	90.7	88.6	87.3
Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu yn Saesneg						90.8	88.1
Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu yn y Gymraeg	88.1	85.1	92.5	91.8	94.4	83.8	90.9
Datblygiad Mathemategol	88.1	89.4	94.3	91.8	94.4	90.7	90.3
Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol	97.6	97.9	98.1	95.9	98.1	95.1	94.7